| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | Cyngor Sir |
| DYDDIAD: | 14 Medi 2010 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | Ymgynghori ynghylch Stad Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi |
| ADRODDIAD GAN: | Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Adrodd ar gynigion ymgynghori sy'n cael effaith ar Ynys Môn. |
| GWEITHREDU: | Ystyried yr argymhelliad |

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Cyfiawnder wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar y lleoliadau mwyaf strategol ar gyfer Llysoedd Ynadon a Llysoedd Sirol ledled Lloegr a Chymru.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cynnig i gau Llys Ynadon Llangefni a throsglwyddo'r gwaith i Gaergybi. Yn ogystal, mae cynigion sy'n cael effaith ar Lys Sirol Llangefni gyda'r bwriad y bydd y Llys Ynadon a'r Llys Sirol yn trosglwyddo i Lysoedd Cyfraith Caergybi.

Ar hyn o bryd mae 6 o ardaloedd cyfiawnder lleol o fewn Ardal Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, ac mae Mainc o Ynadon ar gyfer pob un gan gynnwys Ynys Môn. Ar hyn o bryd nid yw'n fwriad bwrw ymlaen i ystyried yn ffurfiol gyfuno Meinciau.

Mae copi o'r llythyr a dderbyniwyd gan Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi ynghlwm ac mae'n gwahodd sylwadau ar y cynigion. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 15 Medi 2010.

**Argymhelliad**

O gofio'r goblygiadau i'r rheini sy'n defnyddio'r Llysoedd o ganlyniad i'r bwriad i gau Llys Ynadon Llangefni a throsglwyddo Llys Sirol Llangefni i Gaergybi, gofynnir i'r Cyngor ystyried a yw'n dymuno cyflwyno gwrthwynebiad i'r cynigion hyn ac awdurdodi'r Rheolwr-gyfarwyddwr iymateb ar sail hynny.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth Polisi**
**Ar ran**
**Y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro**
**02/09/10**